

CYLCHGRAWN AR GYFER FFERMIO A CHOEDWIGAETH YNG NGHYMURU

cyswllt FFERMIO



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

08456 000 813

Gweithio gartref

Sut dysgodd Beccie Williams
am ffermio dofednod

I bleee wyt ti wedi mynd?

Treialu defnyddio technoleg
olrhain mewn systemau pori eang



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar
gyfer Datblygu Gwledig
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaldddi Gwledig
European Agricultural Fund for
Rural Development
Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhifyn 37 – Ionawr/Chwefror 2022 | llyw.cymru/cyswlltffermio



EIPWALES

Cydweithio er ffyniant gwledig
Collaborating for rural success

Ar hyn o bryd, mae Partneriaeth Arloesi Ewrop (EIP) yng Nghymru yn cefnogi amrywiaeth o brosiectau sy'n rhoi cyfle i grwpiau o ffermwyr a choedwigwyr o bob rhan o Gymru i dreialu syniadau, dulliau neu dechnoleg arloesol ar lefel ymarferol. Mae 46 o brosiectau wedi eu cefnogi, gyda dros 200 o ffermwyr a choedwigwyr yn cymryd rhan – y cyfan yn ymchwilio i rywbeth newydd a allai ddwyn buddion gwirioneddol i'w busnes. Trwy ddod â'r bobl hyn at ei gilydd, mae'n creu cyfle gwych i dynnu ar brofiadau gwahanol, gan gyflwyno syniadau newydd a defnyddio'r wybodaeth ddiweddaraf i dacio problemau. Trwy rannu'r canlyniadau gyda'r diwydiant ehangach, mae'n gadael i eraill gael budd o'r prosiectau hyn.

Lansiwyd Partneriaeth Arloesi Ewrop ar gyfer Cynhyrchiant a Chynaliadwyedd Amaethyddol (EIP-AGRI) gan y Comisiwn Ewropeaidd yn 2012. Mae'r rhaglen yn cael ei chyflawni yng Nghymru gan Menter a Busnes ar ran Llywodraeth Cymru.

Mae wedi bod yn flwyddyn wych arall o weithio gyda'n holl brosiectau. Er gwaethaf yr holl newidiadau a heriau, mae'r ffermwyr, coedwigwyr a'r rhai sydd wedi bod yn rhan o'n prosiectau wedi llwyddo i roi canlyniadau diddorol i ni y byddem yn hoffi eu rhannu â chi yn y cyhoeddiad hwn. Byddwch yn darllen am y newyddion diweddaraf a'r gwersi a ddysgwyd hyd yn hyn o saith prosiect gwahanol. Mae amrywiaeth o bynciau'n cael eu trafod; ond,



Owain Rowlands, Swyddog EIP yng Nghymru

mae'r cyfan yn canolbwyntio ar newidiadau y gellir eu gwneud ar y fferm a fydd gobeithio yn arwain at fusnes mwy llwyddiannus.

Dangosodd un o'r prosiectau sy'n cael sylw fod newid y dull o wrteithio glaswelltir yn gallu arwain at welliannau sylweddol o ran effeithlonrwydd, gan ddod â manteision amgylcheddol ac economaidd. Gan fod prisiau cynyddol gwrtaith artiffisial tu hwnt i reolaeth y ffermwyr, mae'r dull gwahanol hwn o chwalu maetholion yn cynnig potensial gwirioneddol.

Mae dod o hyd i ffrydiau incwm eraill i helpu i gynnal y prif fusnes ffermio a choedwigaeth hefyd yn bwnc trafod poblogaidd. Ceir y newyddion diweddaraf am brosiect sy'n un o'r rhai cyntaf yn y Deyrnas Unedig i ganolbwyntio ar gynhyrchu nodd bedw i gyflenwi'r farchnad surop bedw. Mae'n cael ei ystyried yn un o'r cynhyrchion bwyd gourmet prinnaf yn y byd, a gallai gynnig marchnad lewyrchus i'r rhai sydd am arallgyfeirio.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth ar y 46 prosiect ar dudalen EIP Cymru ar wefan Cyswllt Ffermio (llyw.cymru/cyswlltffermio). Rydym yn gobeithio y byddwch yn mwynhau ei darllen, ac y bydd rhywbeth yn berthnasol i'ch busnes chi.

Owain Rowlands

Swyddog EIP yng Nghymru



Mae Robin Nicolson (chwith), yn y llun gyda Nigel Howells, yn newid i wrteithio drwy'r dail yn barhaus.

Gwrteithio glaswellt trwy'r dail

Mae targedu nitrogen trwy roi gwrtaith wedi ei wanhau yn uniongyrchol ar y gwndwn yn helpu i greu gwelliannau o ran effeithlonrwydd nitrogen ar ffermydd Cymru.

Mae'r defnydd o nitrogen (N) yn cael ei archwilio'n fanwl, ac mae'r pwysau ar ffermwyr yn cynyddu i wella ei effeithlonrwydd er mwyn lleihau'r mewnbwn gwrtaith a lliniaru risgiau llygredd amgylcheddol.

Dangosodd un o brif ganfyddiadau allweddol y prosiect ar borthi dail y gall y dull hwn gynyddu effeithlonrwydd y defnydd o nitrogen – y berthynas rhwng cyfanswm y mewnbwn N ar grwd mewn cymhariaeth â'r allbwn N – hyd at bedair gwaith mewn cymhariaeth â gwrtaith confensiynol; ar gyfartaledd, roedd dwy neu dair gwaith yn uwch ar draws ffermydd y prosiect.

Mae asid hwmig yn y porthiant ar y dail yn cludo'r N i'r planhigyn yn weithredol, felly mae'n fwy effeithlon na'i amsugno trwy'r gwraidd. Ond, mae tua 25% yn ddrytach fel y mae'r gost o'i chwalu.

Er mwyn gwrteithio trwy'r dail mae angen wrea heb ei ddiogelu, sy'n costio tua £360/t ac asid hwmig, ar tua £2.25/ha; mae'n costio tua £15/ha i'w chwalu mewn cymhariaeth â thua £7.50/ha ar gyfer gwrtaith gronynnol. Dywed cynghorydd y prosiect, yr ymgynghorydd pridd a glaswelltir Nigel Howells, fod y cynnydd yn effeithlonrwydd y defnydd o nitrogen yn fwy na gwneud iawn am y costau ychwanegol yma.

“Ar bob safle, ym mhob blwyddyn, roedd cost y nitrogen am bob litr o laeth yn is mewn plotiau lle'r oedd y dail wedi eu porthi mewn cymhariaeth â'r plotiau confensiynol,” meddai.

“Roedd y gwahaniaeth yn amrywio o safle i safle, ond yn y rhan fwyaf o achosion, roedd y gwrteithio trwy'r dail rhwng 40-50% yn fwy cost-effeithiol.”

Mewn cynnyrch glaswellt yr oedd gwrtaith confensiynol yn dangos enillion: roedd y cynnyrch trwy'r tymor rhwng un a thair tonnell yn fwy, er bod y plotiau confensiynol wedi cael llawer mwy o N. Ond roedd eithriadau, a chredir bod ffactorau yn cynnwys mis y chwalu a'r tywydd ar y pryd yn cael dylanwad ar hyn.

Yn 2019, tyfodd y plotiau gwrteithio trwy'r dail 0.5–1.0 tonnell o gynnwys sych i bob hectar (t DM/ha) yn fwy na'r plotiau confensiynol hyd at ddiwedd Ebrill, gan ddynodi tyfiant cynnar cyflymach. Gallai hyn fod oherwydd bod yr N yn cael ei ddefnyddio yn gyflymach trwy'r dail mewn cymhariaeth ag amsugno trwy'r gwreiddiau pan fydd tymheredd y pridd yn is.

Yn 2020, tyfodd y plotiau gwrteithio trwy'r dail ar un fferm 2.5t DM/ha yn fwy, a thyfodd fferm arall 0.8t DM/ha yn ychwanegol. Dywedodd Mr Howells fod lleithder y pridd yn debygol o fod yn ffactor. Trwy wrteithio trwy'r dail, mae'r angen i faetholion gael eu hamsugno trwy'r gwraidd yn cael ei osgoi, ac felly'r lleithder yn y pridd.

“Roedd gwanwyn 2020 yn eithriadol o sych, ac felly gall yr amsugno gwrtaith o'r gwrtaith confensiynol trwy'r gwreiddiau fod wedi ei leihau'n sylweddol,” meddai Mr Howells.

“Mae'r canlyniadau'n awgrymu y gall gwrteithio trwy'r dail arwain at gynydd yn y cynnyrch mewn tywydd oer a/neu sych, mewn cymhariaeth â phorthiant confensiynol, oherwydd bod yr N yn cael ei ddefnyddio'n

well, ond mae angen rhagor o ymchwil i gadarnhau hyn.”

Ar gyfraddau uwch o N, dangoswyd bod gwrteithio trwy'r dail yn cynnal cynnyrch sy'n cymharu â systemau chwalu confensiynol. Yn 2021, cynyddwyd yr N a chwalwyd trwy borthi dail o gyfartaledd o tua 70 kg N/ha i 100 kg N/ha. Arweiniodd y cynnydd hwn at gynydd tebyg yn y plotiau hyn, mewn systemau oedd yn cael eu pori a'u torri'n silwair, mewn cymhariaeth â phlotiau confensiynol.

Roedd yr effeithlonrwydd defnydd nitrogen yn parhau i fod yn sylweddol uwch yn y plotiau porthi dail, gan gyflawni cynnyrch DM tebyg i blotiau confensiynol trwy chwalu dim ond 40-50% o N. Ond, rhybuddiodd Mr Howells, oherwydd yr amrywiaeth rhwng ffermydd a rhwng blynyddoedd, ni ellid llunio casgliadau cadarn ar y berthynas rhwng y crynhoad o N yn y gwrtaith dail a'r effeithlonrwydd yn y defnydd o nitrogen. Ond hyd yn oed ar y crynhoad hwn, roedd gwrteithio trwy'r dail yn fwy cost effeithiol na N confensiynol.

Roedd gwrteithio trwy'r dail mor isel â 1.87 ceiniog y litr o laeth ar un fferm, mewn cymhariaeth â 3.86 ceiniog y litr ar gyfer N gronynnol, a hyd yn oed ar y fferm lle'r oedd cost y gwrteithio trwy'r dail ar ei uchaf (ar 3.10 ceiniog y litr), roedd yn llai na hanner cost N confensiynol ar 7.34 ceiniog y litr.



Heffrod yn pori ar un o'r plotiau prawf



Cae silwair ar un o ffermydd y prosiect

Astudiaeth achos

“Rwy’n gallu tyfu mwy o laswellt gan ddefnyddio llai o nitrogen trwy ei roi ar y dail,” meddai Robin Nicolson, sy’n cadw buches o 230 o fuchod Holstein Friesian a chroes.

Mewn blwyddyn arferol, roedd ei ddefnydd blynyddol o wrtaith ar Fferm Pisgah, ger Maenclochog, wedi bod hyd at 300kg/ha. Roedd cymryd rhan yn y prosiect gwrteithio trwy’r dail wedi agor ei lygaid i botensial defnyddio dull gwahanol i chwalu gwrtaith ar ei wndwn pori a silwair.

“Rwyf wedi dysgu ein bod yn gallu tyfu llawer mwy o laswellt gyda llawer llai o wrtaith,” meddai Mr Nicolson, sy’n ffermio gyda’i wraig, Julie.

Roedd cae’r prosiect ar Fferm Pisgah yn wynebu’r gogledd, ar 900 troedfedd uwch lefel y môr, ac roedd y pridd yn fawnog; fel y cyfryw, roedd yn un o’r safleoedd prosiect mwyaf heriol.

Ym mhob blwyddyn o’r prosiect tair blynedd, gwnaeth perfformiad gwrteithio trwy’r dail mewn cymhariaeth â chwalu confensiynol argraff ar Mr Nicolson. Ond, blwyddyn olaf y prosiect, pan ddefnyddiwyd crynhoad uwch o nitrogen yn y gwrtaith dail, wnaeth ei ddarbwylllo mai dyma’r system iawn ar gyfer ei anghenion.

Yn y plot lle chwalwyd gwrtaith confensiynol, rhoddwyd cyfanswm o 275kg/ha o N ac fe dyfodd 2,300kg DM/ha yn fwy na’r padog rheoli, lle nad oedd dim wedi ei chwalu; dangosodd hyn effeithlonrwydd defnydd nitrogen o 8.4%.

Yn y plot gwrtaith dail, rhoddwyd 110kg/ha o N, gan dyfu 2,900kg DM/ha yn fwy

na’r plot rheoli, gan roi effeithlonrwydd defnydd o nitrogen o 26.4%. Mae’r defnydd effeithlon sylweddol uwch hwn yn golygu, o ran cost am bob litr o laeth a gynhyrchir, 3.10 ceiniog y litr y mae gwrteithio trwy’r dail yn ei gostio, mewn cymhariaeth â gwrtaith confensiynol sydd yn 7.34 ceiniog y litr.

Wrth symud ymlaen, bydd gwrteithio trwy’r dail yn chwarae rhan bwysig ym musnes y teulu Nicolson. Nid yn unig mae’r system yn dda i’w fusnes, ond i’r amgylchedd hefyd, meddai Mr Nicolson: “Os ydyn ni’n defnyddio llai o wrtaith, yna mae angen cynhyrchu llai ohono.”

Trwy leihau’r defnydd o N, mae hefyd wedi sylwi bod ei fferm 129ha yn tyfu mwy o feillion.

Yr N a ddefnyddir ar ffermydd Cymru ar gyfartaledd yw 250kg/ha, ond nid yw’r lefel hon yn gynaliadwy, dywed Mr Howells.

Un o ystyriaethau gwrteithio trwy’r dail yw amseru’r porthi – er mwyn iddo weithio ar ei orau, dylid ei roi yn hwyr yn y prynhawn neu yn gynnar fin nos, ond mae’r bore cynnar hefyd yn addas.

“Mae’r planhigyn glaswellt yn derbyn y gwrtaith yn well ar yr adegau hyn,” meddai Mr Howells.



Nigel Howells



Cae asbaragws, Square Farm



Rob Whittal o Square Farm

Archwiliad o botensial ymarferol ac ariannol tyfu asbaragws yn organig ar raddfa fechan mewn dau leoliad yn ne Cymru

Asbaragws organig yn cynnig elw da, ond gall ei gynhyrchu fod yn heriol.

Mae asbaragws organig o werth uchel yn cynnig elw da i ddau dyfwr yn Sir Fynwy, ond dangosodd prosiect i archwilio potensial tyfu'r cnwd ar raddfa fechan yng Nghymru fod rhaid ystyried nifer o elfennau cyn buddsoddi yn ei gynhyrchu.

Gyda'r potensial i asbaragws organig werthu am bris mor uchel â £18 y kg, roedd y tyfwyr Rob a Ryan Whittal, o Square Farm, a Ruth Tudor o Trealy Farm, yn Llanfihangel Troddi, yn awyddus i archwilio a allai'r llysiau gael eu tyfu'n llwyddiannus dan amodau organig.

Mae'r cnwd yn apelio i arddwyr oherwydd ei fod yn barod i'w werthu yn yr hyn a elwir yn 'fwlch llwglyd', o ddiwedd Ebrill i 21 Mehefin,

pan fydd ychydig iawn o gnydau ar gael. Mae hefyd yn manteisio ar ffresni a marchnadoedd cadwyn gyflenwi fer na all archfarchnadoedd yn gyffredinol gystadlu â nhw.



Siop lysiau Square Farm

Sefydlwyd un hectar (ha) o asbaragws ar bob fferm ar gost bras o £7,900/ha, heb gynnwys TAW – cost uwch nag a ragwelwyd oherwydd nad oedd contractwyr ar gael yn yr ardal oedd yn brofiadol mewn plannu asbaragws ar raddfa fechan.

Roedd angen hyfforddiant ar y contractwyr ac roedd hyn, ynghyd â'r heriau o ran y tywydd, wedi golygu bod y plannu wedi cymryd mwy o amser nag y disgwyliwyd – 16 o ddyddiau gwaith i un person dros bythefnos – gan dynnu costau ychwanegol. Roedd y plannu ar Square Farm yn brydlon ac mewn tywydd rhesymol, ond fe wnaeth y glaw beri ychydig o oedi ar Trealy Farm; plannwyd 22,000 o blanhigion asbaragws ar bob fferm.

Dangosodd y prosiect ei bod yn hawdd marchnata asbaragws wedi ei gynaeafu rhwng Ebrill a Mehefin, ac y gall greu trosiant rhagorol ar gadwyn gyflenwi fer.

Ar gyfer Square Fferm, roedd yr elw ar y cnwd organig yn £21,600/ha yn 2020 yn y flwyddyn gyntaf o gynhyrchu, ond aeth i lawr i £10,700/ha yn 2021, yn bennaf oherwydd y tywydd gwael yn y gwanwyn. Yn Trealy, roedd y cynnyrch yn is mewn cymhariaeth – yn 2020, dim ond 118kg a werthwyd, heblaw rhywfaint a werthwyd ar gyfer eu cyfanwerthu, ac fe wnaeth cynhaef 2021 gynhyrchu cyfartaledd o ddim ond 5kg/y dydd.

Fodd bynnag, llwyddwyd i gael pris gwerthu uchel o tua £18/kg trwy werthiannau uniongyrchol yn lleol a, gan ystyried gwerthiannau eraill, gwerthwyd tua 300kg ar gyfartaledd o £10/kg – gwerthiant o £3,000 gyda chostau isel iawn.

Ar anterth y cynhaef, roedd casglu yn cymryd amser (hyd at wyth awr y dydd gyda gweithwyr profiadol ar gyfer y cnwd ar Square Farm),

ac roedd angen dwy i dair awr arall ar gyfer golchi, pwyso a graddio mewn tuswau.


Dywed Chris Creed, o ADAS, oedd yn rhoi cyngor arbenigol ar gyfer y prosiect, fod asbaragws fel system mewnbwn isel yn cynnig elw da ar fuddsoddiad – ond ar Square Farm, cyflawnwyd rhywfaint o'r budd ariannol trwy farchnata asbaragws yn uniongyrchol trwy ei siop ar y fferm, ac efallai na fyddai hynny ar gael i bob tyfwr. Rhybuddiodd hefyd, gyda'i gostau sefydlu uchel a'r amser maith cyn y prif gynhaef cyntaf, bod angen ystyried economeg tyfu asbaragws yn ofalus iawn.

Dangosodd y prosiect y gall asbaragws gael ei dyfu'n llwyddiannus wrth ei reoli'n organig, ond amlygodd hefyd fod nifer o ystyriaethau y dylid eu cadw mewn cof:

- Mae sylw i fanylion wrth blannu a rheoli chwyn yn ystod y cyfnod sefydlu yn hanfodol – nid yw asbaragws yn dda am gystadlu yn erbyn chwyn parhaol
- Mae'r cnwd yn agored i niwed gan eithafion tywydd – yn tyfu'n araf iawn pan fydd hi'n oer ac yn gyflym pan fydd hi'n boeth, ac mae rhew yn effeithio arno
- Gall argaeledd gweithwyr medrus fod yn heriol yn y cyfnod prysuraf, ac maent yn costio llawer
- Gall lleoliad, rheoli cnwd a ffactorau eraill fel hinsawdd gael effaith ar gynhyrchiant yn gyffredinol
- Dylid ystyried llwybrau marchnata i gael yr elw mwyaf

Roedd y ddau dyfwr yn gadarnhaol am effaith yr asbaragws ar eu busnesau fferm, ac mae Square Farm yn gobeithio cynyddu'r cynhyrchiant.

Targedur defnydd o anthelmintigau mewn defaid



Wyau llyngyr crwn wedi'u nodi gan ddefnyddio system Techion FECPAK G2

Canfyddiadau'r prosiect yn dangos posibilïadau anferth dull o dargedu triniaeth lladd llyngyr mewn defaid.

Dengys tystiolaeth newydd sy'n dod i'r amlwg ar ffermydd Cymru trwy ymchwili i gyfrif wyau ysgarthol ar gyfer mamogiaid o gwmpas amser wyna fod posibilrwydd mawr i leihau'r ddibyniaeth ar driniaethau anthelmintig trwy dargedu'r triniaethau.

Mae'r prosiect yn ymchwilio i'r cysylltiad posibl rhwng cyfrif wyau ysgarthol uwch â'r mamogiaid hynny sy'n colli sgôr cyflwr corff o gwmpas amser wyna, pan fyddant dan straen o ran maeth; mae'r gwanhau sy'n digwydd i'r system imiwnedd oherwydd hynny yn arwain at yr hyn a elwir yn gynnydd cyn esgor ar gynhyrchu wyau gan llyngyr ym mherfedd y famog. Mae'r wyau hyn, pan gânt eu hysgarthu ar borfa, yn datblygu yn larfa ac yn creu perygl llyngyr i'r wryn yn hwyrach yn y tymor.


Yn ôl yr arbenigwraig annibynnol ar ddefaid, Lesley Stubbings, mae'r canlyniadau cychwynnol o'r data a gasglwyd ar bump o ffermydd defaid masnachol yng Nghymru yn awgrymu, pan fydd mamogiaid yn colli cyflwr corff cyn wyna, mae'r cynnydd cyn esgor yn gynharach; i'r gwrthwyneb, ar ffermydd lle mae'r mamogiaid yn colli cyflwr corff wrth laetha, mae'r cynnydd cyn esgor yn digwydd ar ôl wyna.

"Mae'r amrywiadau yn y canlyniadau cynnar yn dynodi bod cyfle anferth i nid yn unig leihau'r nifer o famogiaid sy'n cael eu trin ar y ffermydd hyn, cyn belled â'n bod yn gallu eu dynodi mewn ffordd ymarferol y gellir ei hailadrodd, ond hefyd i amseru'r triniaethau a roddir i gael yr effaith mwyaf," meddai Ms Stubbings.

Mae'r data hefyd yn dangos "amrywiaeth sylweddol" yng ngraddfa, amseriad a hyd y cynnydd cyn esgor rhwng ffermydd a rhwng mamogiaid unigol, ond gellir cymharu blynyddoedd ar bob fferm unigol.

Gwahaniaethau yn amseriad a maint y cynnydd cyn esgor yn 2020.

Ffigwr 1:




Fferm 1 – Anterth yr wyau yn digwydd cyn ŵyna. Rhoddwyd triniaeth i'r mamogiaid oedd yn colli cyflwr hyd at ŵyna (50% o'r criw). Yna cadwodd y cyfrif wyau yn isel ar gyfer y criw cyfan.

Mae'r mamogiaid yn cael eu profi am wyau ysgarthol yn wythnosol o chwe wythnos cyn ŵyna hyd wyth wythnos ar ôl ŵyna i ddeall maint, amseriad a hyd y cynnydd mewn cyfrif wyau o gwmpas amser ŵyna – ar bob fferm, mae 10 o famogiaid gwarchodol y mae'r wyau ysgarthol yn cael eu cyfrif a lefelau'r gwrthgyrff i'r llyngyr yn cael eu harchwilio.

Mae trin llyngyr mamogiaid tuag amser ŵyna yn arfer sy'n cael ei gyflawni gan y rhan fwyaf o ffermwyr defaid y Deyrnas Unedig, ond gall trin y mamogiaid i gyd fel hyn fod yn ddull o hybu gwrthedd anthelmintig. Er mwyn lliniaru hyn, y cyngor cyfredol Rheoli Parasitiaid Cynaliadwy (SCOPS) yw peidio â thrin o leiaf un o bob deg o'r mamogiaid cryfaf. Ond, gan fod gwrthedd anthelmintig yn cynyddu ar draws y Deyrnas Unedig, mae angen i leihau nifer y mamogiaid sy'n cael eu trin fod yn flaenoriaeth, meddai Ms Stubbings:

“Mae'r amrywiaeth mawr o ran cyfrif wyau ysgarthol wrth ŵyna yn dangos bod rhai mamogiaid yn cynhyrchu llawer iawn o wyau, ond mae eraill yn isel.”



Fferm 2 – Anterth yr wyau ddim yn digwydd tan ar ôl ŵyna, pan fydd y colli cyflwr corff yn dueddol o ddigwydd wrth i famogiaid sy'n cario efeilliaid fod dan bwysau o ran porfa.

“Ystyrir mai'r ffactorau sy'n rhan o'r gwahaniaeth hwn yw sgôr cyflwr corff, lefel y maethiad, oedran a faint o ŵyn sy'n cael eu cario, ynghyd ag elfen enynnol yn gysylltiedig â chryfder ymateb imiwnedd y famog.”

Mae'r prosiect yn ceisio ynysu ffactorau i adnabod mamogiaid sy'n cynhyrchu llawer o wyau, er mwyn i'r gyfran sy'n cael eu trin o gwmpas amser ŵyna gael ei gadw cyn lleied â phosibl heb effeithio ar berfformiad yr ŵyn.

Cofnodir cyflwr y corff a'r pwysau hefyd, a rhoddir argymhellion o ran dogn ar sail dadansoddiad o borthiant a/neu'r porthiant sydd ar gael i leihau unrhyw straen o ran maeth. Cofnodir pwysau ŵyn yn wyth wythnos a chyfrifir wyau ysgarthol i fesur lefelau'r llyngiad ar y borfa.

Bydd y monitro yn parhau yn nhymor ŵyna 2021/22, gan fod gan y prosiect tair blynedd chwe mis arall i fynd.

Gwella ffrwythlondeb a chyfraddau lloea buchesi llaeth yn ne-orllewin Cymru trwy ddull o gael diagnosis beichiogrwydd cynnar gan ddefnyddio protein B sy'n benodol i feichiogrwydd (PSPB)

Cemegyn yw PSPB sy'n cael ei gynhyrchu gan anifail cnoi cil bechiog, ac mae'n ddull dibynadwy o ragweld beichiogrwydd.

Mae pedwar o ffermwyr llaeth yn Sir Gaerfyrddin, gyda chyfanswm o tua 1,700 o anifeiliaid, wedi bod yn gweithio gyda'r Dr Sotirios Karvountzis o Filfeddygon Mendip, Llandeilo, i ymchwilio a ellir defnyddio PSPB fel dull o ddynodi beichiogrwydd yn gynnar mewn buchod llaeth, o fewn 30 a 120 diwrnod o gael tarw. Gall canfod anffrwythlondeb yn gynnar mewn buches llaeth arwain at driniaethau amserol a phriodol gan ymgynghori â milfeddyg y fferm.

Dynododd astudiaethau yn Idaho yn yr Unol Daleithiau fod y crynhoad o PSPB mewn serwm gwaed yn fwy dibynadwy ar gyfer cynnal profion na'r rhai mewn llaeth, yn ystod y cyfnod 30-120 diwrnod ar ôl cael tarw.

Ar ddechrau'r prosiect, rhannwyd y buchod yn ddau grŵp ar hap: canfod

beichiogrwydd trwy sganio uwchsain a chanfod beichiogrwydd trwy sampl gwaed. Defnyddiwyd gwir ddyddiadau lloea'r anifeiliaid fel y meincnod i gymharu gyda chanlyniadau'r ddau ddull.

Roedd pob dull yn rhoi tri chanlyniad posibl: 'positif' pan oedd beichiogrwydd yn cael ei ganfod, 'negyddol' pan nad oedd yr anifail yn gyfeb neu ei bod yn rhy gynnar i ganfod y beichiogrwydd, ac yn olaf 'ail-wirio' pan oedd amheuaeth bod yr embryo yn marw neu'n cael ei ail-amsugno.

"Gwelwyd bod PSPB 94% yn gywir ac uwchsain yn gywir 95% wrth ragweld canlyniad positif. Hefyd roedd PSPB 87% yn gywir ac uwchsain yn gywir 86% o ran rhagweld y canlyniad negyddol. Nid oedd y gwahaniaeth rhwng y canlyniadau hyn yn arwyddocaol yn ystadegol," dywedodd Dr Karvountzis.

O roi costau o'r neilltu, mae manteision ac anfanteision i'r ddau ddull o ganfod beichiogrwydd. Mae sganio uwchsain yn ddull cymharol gyflym o gael canlyniad dibynadwy. Mae hefyd yn gadael i ffermwyr ddynodi beichiogrwydd lluosog (efeiliaid, tripledi ac yn y blaen), cyfnod o feichiogrwydd (bydd offer penodol yn galluogi nodi'r oed o fewn 7-10 diwrnod), a, gan ddibynnu ar y ddelwedd ar gyfnod y beichiogrwydd, pennu rhyw'r ffoetws.

Anfantais y dull hwn yw profiad y gweithredwr, gan fod tystiolaeth bod canlyniad y sganio yn gwella gyda hyfforddiant a gyda blynyddoedd o ymarfer. Mae'n rhaid



O'r chwith: Dr Sotirios Karvountzis, Rhys Watkins gyda'i frawd Hywel Watkins a'u mam Janet Watkins, Fferm Pantglas, Llanfynydd, Llandeilo



amharu ar batrwm dyddiol yr anifeiliaid a ddewisir hefyd, gan eu bod yn cael eu cadw mewn corlan cyn neu ar ôl godro, gan aros i gael eu harchwilio.

Wrth ddefnyddio PSPB, gall ffermwr sydd wedi ei hyfforddi gasglu'r samplau ar unrhyw amser sy'n gweddu i'w amserlen, ac amserlen y buchod. Gellir ei weithredu fel rhan o'r tasgau rheoli wythnosol, yn debyg i drimio traed, gan leihau'r amharu ar batrwm arferol yr anifeiliaid. Ar ôl i'r canlyniadau PSPB gael eu dychwelyd o'r labordy, gall y rhai sy'n negyddol gael eu cyfeirio at y milfeddyg. Gall y milfeddyg wedyn gasglu pam nad ydynt yn cyfebu a rhoi'r triniaethau addas.

Fodd bynnag, mae rhai anfanteision. Daw casglu sampl gwaed dan gylch gorchwyl y Ddeddf Milfeddygon. Felly, mae'n rhaid i'r unigolyn sy'n cynaeafu'r samplau fod wedi ei hyfforddi ar y weithdrefn gan ei filfeddyg ei hun. Yn ail, er bod PSPB yn rhagweld canlyniad beichiogrwydd yn gymharol gywir, ni all gasglu hyd y beichiogrwydd (ac felly mae'n gweithio orau gyda dyddiad penodol o ran rhoi tarw), y gyfradd o efeilliaid na'i ddefnyddio i bennu rhyw.

Hywel Watkins, sy'n ffermio ym Mhantglas, ger Llandeilo, gyda'i frawd Rhys a'u mam Janet, yw un o'r pedwar ffermwr sy'n cymryd rhan yn y prosiect. Mae'r teulu'n cadw buches o 370 o wartheg Holstein pur sy'n cael diet dogn cymysg llawn (TMR) ac yn gweithredu system dan do trwy'r flwyddyn a lloea yn yr hydref. Ar gyfartaledd, mae pob buwch yn cynhyrchu 45 litr o laeth y dydd.

"Mae profi PSPB o fudd i'n busnes gan ei fod yn osgoi straen i ni a'r buchod. Nid oes rhaid i fuchod aros yn awr ac mae'n fwy cyfleus, ac yr un mor gywir â sganio," dywed Hywel Watkins.

Mae protocol o'r fath yn cynnig offeryn arall i ganfod beichiogrwydd nad yw'n ddrud ac mae'n rhagweithiol, gan arwain at well cyfraddau beichiogi, ond hefyd mae'n rhoi cyfle i'r hwsmon weithio'n glos gyda milfeddyg y fferm. Y canlyniad yn y pen draw yw sefyllfa lle mae pawb ar ei ennill – y milfeddyg, y ffermwr a'r fuwch. Mae'r effaith ar ymddygiad a chynhyrchiant yr anifail yn cael ei gadw cyn lleied â phosibl, gall menter y fferm arbed arian, a gall y milfeddyg barhau ei ymwneud â'r fuches a'i oruchwyliaeth drosti.



Cymharu technegau cadw nodd bedw o Gymru yn ffres ar y safle i'w ddefnyddio mewn cynnyrch artisan gan fusnesau lleol

Dynoda Ystadegau Coedwigaeth 2019 mai bedw sy'n drydydd yn y rhestr o'r coed llydanddail mwyaf cyffredin yng Nghymru, gan orchuddio 11,000ha o goetir preifat, fe amcangyfrifir, a llawer o'r rheiny ar ffermydd. Gan nad yw'r coed yma wedi eu bwriadu i gynhyrchu pren, yn gyffredinol nid ydynt yn cael eu rheoli, ond gydag ychydig o fewnbwn maent ar gael o bosibl fel ffynhonnell nodd bedw, cynnyrch arall (heblaw pren) wrth iddynt dyfu, ac fel coed tân ar ôl aeddfedu.

Nid oedd y grŵp tu ôl i'r prosiect EIP 'Dewis Bedw' yn sicr beth oedd y ffordd orau o gadw'r nodd i gynhyrchu surop (cynnyrch bwyd gourmet gwerthfawr) ar ôl iddo gael ei odro.

"Nod y prosiect hwn yw treialu a gwerthuso dulliau o gadw ac ychwanegu digon o oes ar y silff at y nodd iddo gael ei gludo oddi ar y safle i'w brosesu ymhellach ac ychwanegu gwerth," esboniodd Maria Wilding o Llais y Goedwig, arweinydd y prosiect.

"Byddai cael gwared ar y rhwystr hwn i farchnata wrth gynaeafu yn rhoi cyfle i

goedwigwyr a ffermwyr ystyried cyfleoedd marchnata ar gyfer cynhyrchion yn seiliedig ar nodd y coed, a surop bedw yn benodol."

Cychwynnodd cynhaeaf nodd bedw cyntaf y prosiect yn Chwefror 2021, dan oruchwyliaeth Dr Jenny Wong a Bryan Dickinson o Wild Resources Ltd, gan dapio dros 30 o goed bedw ar dri safle – dau yn ne Cymru ac un yn y gogledd.

Dim ond am gyfnod byr yn y flwyddyn y mae nodd bedw addas i'w gasglu yn cael ei gynhyrchu gan y coed. Eleni, roedd y tapio ar ei anterth yn wythnos gyntaf Mawrth; casglwyd y nodd wedyn bob bore am 17 diwrnod.


Mewn nodd bedw ffres mae'r crynhoad siwgr yn isel a'r cynnwys dŵr yn uchel, ac mae angen ei grynodi i'w drosi yn surop. Casglwyd tua 400 litr o nodd ffres ar bob safle (ychydig dan 1,200 litr i gyd), gan roi cyfle i dreialu tair proses gadw wahanol, i ddysgu pa un fyddai fwyaf ymarferol i leihau cyfaint y nodd cyn iddo adael y coetir.

Stôf goed tu allan: Ymchwiliodd y prosiect i ferwi 80 litr o'r nodd mewn padelli anweddu mawr ar dân coed. Yr arwyddion cynnar oedd y gallai hyn weithio'n dda a bod yn ffordd effeithlon o grynhoi'r nodd, a gellid trefnu hynny fel digwyddiad cymunedol hefyd. Cynyddwyd y crynhoad siwgr i dros 16% gydag ychydig iawn o oruchwyliaeth. Mae'r grŵp yn bwriadu ymchwilio ymhellach i hyn y flwyddyn nesaf.



Y nodd yn cael ei ferwi ar dân coed

Osmosis gwrthdro: Profwyd micro-hidlo'r nodd gan ddefnyddio dau fath o offer, ac mae'n ymddangos bod potensial mawr yn hyn o ran cadw'r nodd. Llwyddwyd i ddyblu'r crynhoad o siwgr yn rhwydd ar ôl i'r nodd fynd trwy'r hidlen unwaith (mewn 45 munud), ond trwy ddal i ailgylchu'r nodd, fe ellid cael crynhoad llawer uwch.



Ffigwr 2: Amser prosesu nodd ar gyfer dwy system osmosis gwrthdro

Wrn arlwygo: Profodd y tri safle'r defnydd o yrnau mawr (40l) wedi eu rheoli o ran tymheredd i ferwi'r nodd a chynyddu'r crynhoad o siwgr. Mae'r cynlluniau treialu cynharaf yn awgrymu y gall y rhain fod yn fwy defnyddiol ar gyfer prosesu yn nes ymlaen yn y broses o grynhoi'r nodd, ac efallai yn llai felly ar gyfer nodd ffres. Er nad oedd angen fawr o oruchwyliaeth ar yr yrnau, ac y gellid cyflawni crynhoad siwgr o bron 30%, roedd yr amser prosesu yn llawer mwy, ac felly roedd y costau ynni'n llawer uwch.

Bwriedir cynnal profion eraill ar y systemau prosesu yn 2022.

“Ochr yn ochr â threialu prosesu'r nodd, bydd y prosiect yn rhoi argymhellion ar ddulliau godro priodol i sicrhau bod cynaeafu nodd bedw yn gynaliadwy,” nododd Maria Wilding. “Rydym wedi bod yn archwilio'r cyfraddau gwella'r tyllau tapio a gwelwyd bod rhai coed yn gwella'n gyflym iawn o fewn misoedd o gael eu tapio, tra bod rhai eraill yn arafach. Rydym yn bwriadu cynnal asesiadau pellach ar yr holl goed sy'n cael eu tapio yn 2022.”



Bedwen yn cael ei thapio

Cadwyn gyflenwi grawn hynafol organig

Mae amaethyddiaeth fodern yn ddrwg-enwog am ddiffyg amrywiaeth o ran cnydau, gan arwain at fioamrywiaeth-amaethyddol isel a dim ond ychydig o amrywiaeth o ran bwyd, ond gyda'r diddordeb newydd mewn grawn hynafol ac etifeddol fel dewis gwahanol, mae treialon tyfu a phobi wedi cael eu cynnal yn Sir Benfro.

Gyda sawl genoteip o wenith hynafol ar gael, mae'n bwysig eu profi i bennu eu haddasrwydd ar gyfer amgylchedd penodol, meddai Henny Lowth, ymchwilydd cnydau maes yn y Ganolfan Ymchwil Organig, oedd yn ymwneud â'r prosiect.

"Yn ogystal â gwerthuso ar y cae, mae'n bwysig profi'r grawn o ran ei addasrwydd at ei ddefnydd yn y pen draw a'i ansawdd i sicrhau llwyddiant o ran cadwyni cyflenwi bach lleol, gan gysylltu ffermwyr, proseswyr a defnyddwyr," meddai.

Aeth y prosiect ati i ymchwilio i agronomi gwenith hynafol ac etifeddol. Trwy wreiddio'r ymchwil mewn gweithrediadau ffermio masnachol, gellid cael darlun 'byd-go-iawn'. Trefnwyd cynlluniau treialu yng ngwanwyn 2019 ar draws pedair fferm, a chynhwyswyd


ffactorau rheoli penodol, fel amrywio cyfraddau'r hadau a hau dan gnwd arall.

Ar ôl yr astudiaeth gychwynnol hon, sefydlwyd cynlluniau treialu yn hydref 2020 ar draws tair fferm, gan edrych ar wenith gaeaf hynafol ac etifeddol. Yng ngwanwyn 2021, edrychodd cynlluniau treialu ar dair fferm ar wenith hynafol, etifeddol a modern, yn ogystal â chymysgu'r cnwd â ffa maes.


Yn gyffredinol, datgelodd y prosiect fod gwenith hynafol yn gallu cynhyrchu yn hafal â mathau modern dan amodau organig, fel y profwyd gan y gwenith etifeddol gwanwyn (April Bearded), mewn cymhariaeth â'r math modern (Mulika), dros ddau dymor tyfu.

Yn 2019, cynhyrchodd Mulika fwy na'r gwenith hynafol (Einkorn), ond yn hafal ag April Bearded (Ffigwr 3), ac yn 2021, nid oedd unrhyw wahaniaeth arwyddocaol yng nghynnyrch y math modern mewn cymhariaeth ag April Bearded a gwenith etifeddol arall (Atle), a'r gwenith hynafol (Emmer) (Ffigwr 4).

Ffigwr 3: Cynnyrch Gwenith Gwanwyn 2019



Ffigwr 4: Cynnyrch Gwenith Gwanwyn 2021



Mae'r graffiau blwch a wisger yn Ffigyrau 3 a 4 yn dangos lled gwerth y cynnyrch; mae'r X yn dangos cyfartaledd y cynnyrch ar gyfer pob cnwd. Ystyrir bod effaith y cnwd ar y cynnyrch grawn yn arwyddocaol os yw'r gwerth $p \leq 0.05$; os nad yw'r cnwd yn arwyddocaol yn ystadegol (ns), yna $p > 0.05$. Yn 2019, roedd gwerth y cynnyrch ar gyfer Mulika yn amrywiol iawn oherwydd bod safle nad oedd yn organig wedi ei gynnwys yn yr arbrawf, lle gallai'r Mulika gyrraedd ei botensial o ran cynnyrch.

Roedd cynnyrch y cnydau gaeaf yn gyffredinol yn wael oherwydd bod ansawdd yr hadau yn isel ac nad oedd y drilio wedi bod ar ei orau. Ond, dangosodd y canlyniadau fod Emmer, y gwenith Cymreig traddodiadol (Hen Gymro), yr hen fath (Maris Widgeon), a'r gwenith etifeddol (Rivet) yn gallu cynnig dewisiadau gwahanol addawol i'r math modern lleol presennol (Torth y Tir) sy'n cael ei dyfu yn yr ardal.

Datgelodd asesiad o afiechydon y dail mai Mulika sy'n gallu eu gwrthsefyll orau; dangosodd y gwenith etifeddol lefelau uchel o lwydni – yn benodol April Bearded ac, i raddau llai, Emmer. Ond dangosodd Einkorn wrthedd da yn gyffredinol.

"Mae gwahaniaethau o ran gwrthedd i afiechyd yn amlygu pwysigrwydd addasiadau lleol a'r gofyn am brofi gwahanol enoteipiau i ganfod y cnydau gorau ar gyfer amgylchedd penodol," meddai Ms Lowth.

Dangosodd ymchwiliad i hau dan y cnwd a chyfraddau hadau fod cyfraddau hadau is o'r cnydau hynafol ac etifeddol yn gallu cynnal y cynnyrch trwy wneud iawn trwy elfennau'r cynnyrch, ond maent yn cynyddu'r risg o chwyn oherwydd bod y boblogaeth o blanhigion yn is. Yn y cyfamser, nid oedd unrhyw effaith niweidiol ar gynnryrch nac ansawdd o hau meillion dan y cnwd; a dweud y gwir, arweiniodd at ostyngiad sylweddol yn y gorchudd o chwyn.

Yn 2019, roedd April Bearded yn cadw'r chwyn i lawr yn well na Mulika.



O'r chwith: Owain Rowlands, Swyddog EIP yng Nghymru; Gerald Miles, Caerhys (un o'r ffermwyr oedd yn rhan o'r prosiect); Tony Little, Brocer Arloesedd EIP yng Nghymru; Henny Lowth, Y Ganolfan Ymchwil Organig

Roedd y cynnwys protein yn uwch ar gyfer y gwenith hynafol ac etifeddol mewn cymhariaeth â Mulika; ni ellir esbonio hyn yn llwyr trwy gymhareb cynnyrch-protein, gan nad oedd y gwenith modern yn cynhyrchu'n sylweddol uwch bob tro.

Roedd mwy o berygl y byddai'r gwenith etifeddol a hynafol yn gorwedd – risg sy'n cynyddu trwy eu trin dan amodau heb fod yn organig; gellir datrys hyn trwy gael poblogaeth is o blanhigion.

Defnyddiwyd y grawn o dreialon 2020/21 mewn treialon pobi i asesu eu gwerth o ran defnydd y cnydau a brofwyd yn y pen draw; mae'r canlyniadau'n cael eu dadansoddi ar hyn o bryd.

Dynodwyd rhai rhwystrau yn ystod y prosiect, fel yr angen am isadeiledd lleol i gefnogi arferion arallgyfeirio ac, yn achos gwenith hynafol, yr angen am beiriant dibliso ar raddfa fechan.

Gallai'r cyflenwad o hadau hefyd fod yn fater allweddol, gan nad yw'r genotypeipiau yma ar gael yn fasnachol.

"Mae'n anodd dod o hyd i hadau a gallant fod o safon isel os byddwch yn eu cael gan ffermwyr sy'n cadw hadau", dywedodd Ms Lowth.

"Mae llawer o enoteipiau ar gael ac yn hygyrch mewn, banciau genynnau, er bod y cyflenwad hadau cychwynnol yn isel, ac angen eu lluosogi dros nifer o flynyddoedd."

I blee wyt ti wedi mynd? Treialu defnyddio technoleg olrhain mewn systemau pori eang



Gall technoleg olrhain da byw helpu ffermwyr Cymru i bori tiroedd cadwraeth.

Dywed ffermwyr o Gymru sy'n defnyddio coleri olrhain GPS i helpu i reoli eu defaid a gwartheg sy'n pori ar fynyddoedd a thir cadwraeth y gallai'r data a gesglir roi hwb i amrywiaeth yn yr ardaloedd hyn.

Fel rhan o'r prosiect, mae chwech o ffermwyr, gan gynnwys Ian Rickman sy'n pori'r Mynydd Du, wedi treialu coleri yn ystod tymhorau pori 2020 a 2021. Dywedodd Mr Rickman fod tystiolaeth y gallai eu defnyddio fynd ymhellach na dim ond rheoli da byw i wella llesiant mewn systemau pori eang.

"Efallai y gall y wybodaeth am ble mae'r defaid wedi fod yn pori, ar ba gynefinoedd, gael ei defnyddio wrth symud ymlaen i gynyddu bioamrywiaeth ar y bryniau," meddai.

Mae diadell Mr Rickman ei hun o 400 o famogiaid yn pori 80 hectar o dir ucheldir yn Gurnos, ger Llandeilo, ac mae ganddo hawl i bori defaid ar y Mynydd Du.

"Pan fydd y mamogiaid ar y mynydd, gallant fod yn anodd eu rheoli, yn arbennig felly dros y blynyddoedd diwethaf, gan fod llai o ddiadelloedd yn pori yno; mae hyn yn annog defaid i wasgaru mwy, gan eu gwneud yn anodd eu casglu."

Mae dwyn wedi bod yn broblem hefyd. "Rydym yn troi defaid allan ac yn anffodus, fydd rhai ddim yn dod yn ôl," dywedodd Mr Rickman.

Roedd gosod y dechnoleg yn heriol ar y dechrau, oherwydd mae'r Mynydd Du yn cynnwys ardal anferth, a gall ei natur fryniog gyda cheunentydd fod yn rhwystr rhwng y goler ar y famog a'r erialau sy'n casglu'r wybodaeth.

Ond, mae'r darparwr wedi gallu rhoi cyngor ar y lle gorau i osod yr erialau yn ôl y wybodaeth ar fapiau a gwybodaeth y ffermwr am y dirwedd.



Caiff y wybodaeth o'r coleri ei chasglu gan yr erialau a'i hanfon ymlaen i ffôn symudol y ffermwr trwy ap.

"Mae'n dangos i ni ble mae'r defaid, pa mor bell y mae'r defaid wedi symud yn ystod y 24 awr diwethaf, a phatrwm y symud – hyd yn oed y tymheredd," dywedodd Mr Rickman.

Gallai'r dechnoleg roi hyder i ffermwyr bori stoc ar ardaloedd mwy anghysbell, gan gynnwys tir cadwraeth, gan gyfateb y pori â'r amcanion cadwraeth.

Un ffermwr sydd eisoes yn gwneud hynny yw Hilary Kehoe, sy'n ffermio ar odre'r Carneddau a hefyd yn cadw buches o 25 o fuchod magu yng Nghors Goch, darn o dir 80 hectar sy'n cael ei reoli gan Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru.

Gall rheoli'r gwartheg ar y tir hwn fod yn heriol. "Mae wedi cymryd dau ddiwrnod

i bedwar o bobl ddod o hyd i fuwch a llo colledig; erbyn hyn, rwy'n gallu edrych ar yr ap ar fy ffôn i weld ble maen nhw a mynd i'r lle iawn i ddod o hyd iddyn nhw," dywedodd Mrs Kehoe, sy'n cynghori ar bori cadwraeth ar draws Cymru trwy Pori, Natur a Threftadaeth (PONT), y gymdeithas bori i Gymru.

Mae wedi treialu'r coleri ar y gwartheg i weld sut gall y dechnoleg helpu ffermwyr sy'n pori'r math hwn o dir.

Mae'r tir yn cael ei bori mewn rhannau ac mae un o swyddogaethau'r ap yn gadael iddi osod terfynau i'r rhain a rhoi rhybudd trwy neges os bydd y gwartheg yn eu croesi. Digwyddodd hyn ddwywaith, a thrwy'r neges rhybuddio gallodd Mrs Kehoe gyrraedd y gwartheg cyn iddynt grwydro i'r pentref gerllaw.

Disgrifiodd y dechnoleg fel "offer gwerthfawr".

"Mae'n rhoi hyder i bobl droi stoc allan," dywedodd. "Rwy'n cael rhybudd os bydd buwch yn llonydd am fwy na phedair i bum awr, ac rwy'n gwybod y bydd rhaid i mi fynd i'w gweld, oherwydd mae fy ffôn yn dweud wrthyf am wneud hynny!"

I gael rhagor o wybodaeth am y prosiect EIP hwn, ewch i wefan Cyswllt Ffermio:
llyw.cymru/cyswlltffermio



Afon Dyfi



Rheoliadau 

Rheoli Llygredd Amaethyddol

**Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru)
2021: gofynion newydd o ran storio tail organig**

Mae gofynion y rheoliadau yn ymwneud â storio tail organig (heblaw slyri) fel tail buarth yn weithredol o 1 Ionawr 2023; bydd hyn yn rhoi amser i wneud newidiadau os bydd angen. Trafodir storio slyri ar wahân yn y rheoliadau a rhaid iddo gael ei gynnwys mewn dull addas.

Storio tail (heblaw slyri)

Rhaid i dail organig, neu unrhyw ddeunydd dan anifeiliaid a lygrwyd ag unrhyw dail organig gael ei storio mewn lleoliad sy'n bodloni o leiaf un o'r meini prawf canlynol:

- Mewn cynhwysydd
- Mewn adeilad wedi ei orchuddio
- Ar arwyneb anhydraidd, neu
- Yn achos tail solid y gellir ei roi mewn tomen ar ei phen ei hun nad oes hylif yn draenio o'r deunydd, ar safle dros dro ar gae; mae gofynion ychwanegol i'r rhain a amlinellir isod.

Gelwir unrhyw hylif sy'n deillio o dail organig, e.e. hylif yn treiddio o storfa waliau hydraidd neu hylif yn deillio o unrhyw dail solid a gadwyd ar arwyneb anhydraidd, yn slyri, a rhaid iddo gael ei gynnwys mewn dull priodol.

Gallwch leihau'r elifant o storfeydd tail yn sylweddol trwy eu gorchuddio neu roi to drostynt a dargyfeirio dŵr glaw glân oddi wrth y storfa trwy gwteri a draeniau.

Safleoedd dros dro ar gaeau

Mae'r rheoliadau hefyd yn cyflwyno gofynion newydd ar gyfer rheoli safleoedd dros dro ar gaeau (a elwir hefyd yn domenni caeau) i leihau'r risg o lygredd. Ystyrir bod safle ar gae yn un dros dro os nad yw wedi cael ei roi ar un safle penodol am fwy na 12 mis ac nad yw'r lleoliad yn bodloni'r gofynion uchod ar gyfer storfa dail.

Lleoliad safleoedd dros dro ar gaeau

Mae'r rheoliadau hefyd yn cyflwyno gofynion o ran lleoliad unrhyw safleoedd dros dro ar gaeau. Rhaid iddynt beidio â chael eu gosod:

- pan fydd cae yn debygol o brofi llifogydd neu fynd yn llawn dŵr.
- yn yr un lle ag un a luniwyd o fewn y ddwy flynedd ddiwethaf. Rhoddir lleoliadau safleoedd dros dro blaenorol ar y map risg.
- o fewn 50 metr o dwll turio, ffynnon neu ffrwd neu o fewn 10 metr o ddŵr wyneb o'r fath neu ddraen tir (heblaw pibell anhydraidd wedi ei selio).
- o fewn 30 metr i gwrs dŵr, ar dir a ddynodwyd ar y map risg fel tir â llethr o fwy na 12°.

Rhaid i ardal safle dros dro yn y cae fod cyn lleied ag sy'n rhesymol o ymarferol i leihau effaith glaw, a rhaid peidio â symud y pridd oddi ar y ddaear y bydd safle cae dros dro yn cael ei ffurfio arno.

Os yw'r tail sy'n cael ei storio yn dail ieir solid, nad oes deunydd dan yr ieir yn gymysg ag ef, rhaid ei orchuddio â meinwe anhydraidd.

Gellir gweld canllawiau manwl yn:

[llyw.cymru/rheoli-tir](#)

Pan oedd Beccie Williams eisiau newid gyrfa, helpodd Cyswllt Ffermio hi bob cam o'r ffordd!

Mae Beccie Williams yn wraig, yn fam i dri o blant ifanc, ac yn awr yn ffermwr dofednod llawn amser hefyd. Cymerodd Beccie a'i gŵr Matthew reolaeth o fferm biff a defaid yn Llanbister, ger Llandrindod, yn 2010, fferm lle'r oedd rhieni Matthew gynt yn denantiaid. Yn ddiweddarach, fe wnaethant brynu'r fferm, ac maent bellach yn bartneriaid busnes yn y daliad 280 erw, lle maent yn cadw 700 o Fiwls Cymreig a gyr o 30 o wartheg, ynghyd â menter dofednod maes a sefydlwyd yn 2019.

Roedd cefndir gwaith Beccie ym maes yswiriant amaethyddol, ond yn dilyn genedigaeth ei thrydydd plentyn, roedd hi eisiau gyrfa a fyddai'n ei galluogi i weithio gartref.

"Rydyn ni wedi gorfod dysgu llawer er mwyn rheoli a darparu gofal o'r safon uchaf ar gyfer haid o 16,000 o ieir dodwy, ond gyda chymorth rhaglen dysgu a datblygu gydol oes Cyswllt Ffermio, rwyf wrth fy modd yn fy rôl newydd ac mae gen i well cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith."

Cwblhaodd Beccie hyfforddiant drwy Jimmy Hughes Services Ltd, darparwr hyfforddiant Cyswllt Ffermio cymeradwy wedi'i leoli yn Llandrindod. Ymgymrodd â chyfuniad o ddysgu wyneb yn wyneb nodedig sesiynau ar-lein – 'yr unig opsiwn yn ystod cyfyngiadau'r pandemig' – a modiwlau e-ddysgu wedi'u hariannu'n llawn, y mae'n eu gwneud yn ei hamser ei hun. Gyda phob cwrs hyfforddi wedi'i ariannu hyd at 80%, dywed y byddai wedi bod yn amhosibl dilyn cynifer o gyrsiau heb y cymhelliant ariannol hwn.



Beccie Williams

"Mae dysgu cymaint ag y gallaf ynglŷn â rheoli iechyd a lles dofednod wedi rhoi'r hyder, y sgiliau a'r wybodaeth i mi er mwyn gallu rhedeg ein menter newydd, ac rwy'n rhoi fy ngwybodaeth ar waith bob dydd."

"Mae e-ddysgu hefyd wedi bod yn wych, gallwch ddewis amser sy'n addas i chi, mynd dros yr hyn rydych chi wedi'i ddysgu mor aml ag y dymunwch, ac mae'r cwis byr ar ddiwedd pob modiwl yn galonogol iawn."

"Mae cael cynllun datblygu personol a defnyddio Storfa Sgiliau (offeryn storio data ar-lein Cyswllt Ffermio ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus, sydd wedi cofnodi fy holl brofiad hyfforddi a dysgu, yn ogystal â'r digwyddiadau rwyf wedi'u mynychu) wedi fy ngalluogi i nodi fy nghryfderau a gwendidau yn ogystal â rhoi awgrymiadau imi ynghylch pa hyfforddiant i wneud cais amdano nesaf."

Bydd y cyfnod ymgeisio sgiliau Cyswllt Ffermio nesaf yn agor am 09:00 ddydd Llun, 3 Ionawr hyd at 17:00 ddydd Gwener, 28 Ionawr 2022.

Mae dros 80 o gyrsiau hyfforddi ar gael, gyda chymhorthdal o hyd at 80% ar gyfer unigolion cofrestredig.

*Os ydych yn bwriadu gwneud cais am gyllid hyfforddi yn ystod cyfnod ymgeisio mis Ionawr, ac nad ydych eisoes wedi cofrestru'n bersonol fel unigolyn, ffoniwch y Ganolfan Wasanaeth ar 08456 000813 cyn 5pm ddydd Llun 24 Ionawr 2022.



Taith Beccie i reoli menter ddofednod newydd...

Cyrsiau byr (wedi'u hariannu hyd at 80%):

Paratoi ar gyfer Rheoliadau IPPC (Dofednod)

- ymdrin â materion amgylcheddol hanfodol megis delio â gwastraff o'r ieir, dŵr ffo, arbed dŵr, llygredd sŵn a bioddiogelwch

Rheoli cnofilod ar y fferm

- ymgymryd â'r gweithdrefnau angenrheidiol mewn modd diogel ac effeithiol

Defnyddio meddyginiaethau milfeddygol mewn modd diogel

- trafod meddyginiaethau fferm yn ddiogel

Gweithio'n ddiogel mewn amaethyddiaeth/garddwriaeth

- dysgu sut i leihau'r risgiau wrth weithio ar uchder, trin da byw, trin peiriannau a cherbydau fferm ac ati

Cymorth cyntaf yn y gweithle mewn argyfwng

- beth i'w wneud mewn argyfwng, sut i roi cymorth cyntaf a phryd i ffonio'r gwasanaethau brys

Cyrsiau e-ddysgu a ariennir yn llawn (dofednod):

Afiechydon resbiradol mewn dofednod



Parasitiaid dofednod



Brechiadau dofednod



Rheoli tail dofednod



Am gyngor pellach ynglŷn â sgiliau a hyfforddiant Cyswllt Ffermio, ewch i: **llyw.cymru/cyswlltffermio** **sgiliauhyfforddiant**. Fel arall, cysylltwch â'ch swyddog datblygu lleol neu ffoniwch Ganolfan Wasanaeth Cyswllt Ffermio ar **08456 000 813**.

I ddarllen stori lawn Beccie, ewch i **llyw.cymru/cyswlltffermio**



E-DDYSGU

Mis Ionawr MODIWLAU'R MIS

Mae ein gwersi rhyngweithiol e-ddysgu yn ymdrin ag amrywiaeth eang o bynciau a fydd yn eich helpu i ddatblygu sgiliau newydd a'r rhai sydd gennych yn barod, cael mwy o wybodaeth a gwella arferion gwaith yn eich busnes.

Mae ein pwyslais ar DDEFAID am y mis hwn ar yr un ffactor sy'n effeithio mwyaf ar broffidioldeb y ddiadell – ŵyna!

A ydych chi yn barod ar gyfer tymor ŵyna llwyddiannus? Atgoffwch eich hun am rai awgrymiadau defnyddiol trwy gwblhau un o'r modiwlau blasu byr isod yn gyfforddus gartref:



DEFAID

- Gwrthedd anthelmintig ar ffermydd defaid
- Ŵyna – tocio, maethu a thorri ar ŵyn
- Problemau ŵyna
- Goroesi ŵyna
- Ŵyna – y pethau sylfaenol

Er mwyn gweld y rhestr lawn o fodiwlau a'r canllaw defnyddiwr cynhwysfawr am gwblhau modiwlau e-ddysgu, ewch i llyw.cymru/cyswlltffermiosgiliauahyfforddiant



“Mae’n ffordd mor hawdd o gael mwy o wybodaeth, wedi ei gyflwyno ar yr union lefel gywir ac rydych yn dysgu ar eich cyflymder eich hun.”

Wyn Williams, Llanfair Caereinion



Clinigau iechyd anifeiliaid

Mae samplu, profi a chyngor un-i-un gan filfeddyg lleol ar gael i fusnesau fferm cofrestredig gyda Cyswllt Ffermio yng Nghymru.

Am fwy o fanylion, cysylltwch â:
Helen Lewis – 01970 631 425
helen.lewis@menterabusnes.co.uk

Gall y profion gynnwys:

Profi gwaed (elfennau hydrin, profilio metabolaidd, Johnes)

FEC **Ffrwythlondeb hwrdd neu darw**
Cyfrif Wyyau
Ysgarthol

Leptospirosis **IBR** Rhinotracheitis
Buchol Heintus

SGRINIO / ANHWYLDERAU GENETEG
Ectoparasitiaid (Clafr)

Bacterioleg – meithrin a sensitifurwydd, cloffni, postmortem
Unrhyw fater yn ymwneud â iechyd anifeiliaid



Cymorthfeydd un-i-un digidol

Cyngor un-i-un am ddim gydag ymgynghorydd ar eu pwnc arbenigol. Bydd y gymhorthfa yn eich galluogi i gael cyngor a chyfarwyddyd sy'n benodol i'ch busnes.

Am ragor o wybodaeth neu i archebu cymhorthfa, cysylltwch â'ch swyddog datblygu lleol neu Ganolfan Wasanaeth Cyswllt Ffermio ar 08456 000 813.

Busnes a Pherfformiad y Busnes / **RHEOLI STAFF** / **MARCHNATA AC ARALLGYFEIRIO** / Cyfraith Amaethyddiaeth ac Olyniaeth / Cynllunio Ariannu a Chyfrifyddu / **Cynllunio a Datblygu** / **Ōl Troed Carbon** / Dyluniad ac Effeithlonrwydd Parlwr Godro / Isadeiledd / **ANSAWDD LLAETH** / Effeithlonrwydd Ynni / Ynni Adnewyddadwy

COETIR / Rheoli Glaswelltir a Chnydau Porthiant / Porthiant a Gwrtaieth / **DADANSODDI PRIDD** / Bioamrywiaeth / Cynefin / Amaethyddiaeth Adfywiol / Ffermio Manwl Gywir (technoleg GPS ac ati)

Systemau Trin Anifeiliaid / **MAETHIAD** / **Rheoli Lloeau** / Iechyd Anifeiliad / **Awyru Dofednod**



Clinigau ar-fferm

- ✓ Cyfarwyddyd un-i-un, wedi'i ariannu'n llawn, gan ymgynghorydd arbenigol cymeradwy
- ✓ Samplu, profi a chyngor ar ystod eang o bynciau sy'n dylanwadu ar effeithiolrwydd a phroffidioldeb ar-fferm

PRIDDOEDD



PORTHIAINT




DŴR



TAIL



ISADEILEDD



Am ragor o wybodaeth neu i archebu clinig, cysylltwch â'ch swyddog datblygu lleol neu ewch i wefan Cyswllt Ffermio a llenwi'r ffurflen 'mynegi diddordeb'.

Negeseuon allweddol:

**PARTNERIAETH
DIOGELWCH AR
FFERMYDD CYMRU**



**WALES
FARM SAFETY
PARTNERSHIP**



Gweithio gyda pheiriannau

Gofalwch bob amser eich bod:

- Yn dilyn y weithdrefn “**stopio’n ddiogel**” cyn gwneud unrhyw waith cynnal a chadw;
- Wedi cael eich hyfforddi;
- Yn cymryd gofal ychwanegol i sicrhau bod peiriannau’n aros yn llonydd (e.e. rhoi sgotshen dan olwynion);
- Yn sicrhau bod unrhyw ran o’r peiriant sydd wedi ei chodi yn cael ei chynnal yn iawn fel na all syrthio;
- Yn cadw pawb yn glir pan fydd y peiriant yn gweithio;
- Rhoi trefniadau addas ar waith pan fyddwch yn gweithio ar eich pen eich hun.